Department for Work & Pensions

Ministerial Correspondence
Caxton House
Tothill Street
LONDON
SW1H 9DA
ministers@dwp.gov.uk

**0207 340 4000**

**www.gov.uk**

Eich cyf: ER

Cyng Edgar Owen
eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

Ein cyf: MC2021/29325

10 Mai 2021

Annwyl Gynghorydd Owen,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Ebrill at yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch Incwm Sylfaenol Cyffredinol (UBI). Rwy'n ymateb fel y Gweinidog dros Gyflawni Lles.

Gallaf gadarnhau nad oes bwriad i gyflwyno UBI gan fod rhaid i ni ddarparu cefnogaeth i'r rheini sydd ei hangen fwyaf ac ni fyddai UBI yn gwneud hynny.

Mae ein dadansoddiad yn dangos y byddai incwm sylfaenol yn golygu dewis rhwng dull hynod o ddrud, a fyddai'n golygu codi trethi yn sylweddol er mwyn gallu fforddio taliad ystyrlon i bawb, neu dalu swm bychan iawn, na fyddai'n ddigonol i fyw oddi arno, a fyddai'n fwy fforddiadwy. Credaf na fyddai'r naill opsiwn na'r llall yn dderbyniol.

Ni fyddai UBI safonol yn targedu cefnogaeth i'r rheini sydd â'r angen mwyaf ychwaith, ac ni fyddai'n ystyried y costau ychwanegol y mae nifer o ddinasyddion yn eu hwynebu. Er enghraifft, y rheini sydd ag anableddau neu gyfrifoldebau gofal plant. Ymhellach, byddai UBI yn lleihau'r cymhelliant i weithio. Byddai diffyg amodau chwilio am waith mewn cynllun UBI llawn o bosib yn amharu'n andwyol ar gymhelliant i weithio, gan olygu bod pobl yn parhau ar fudd-daliadau am gyfnod amhenodol.

Yng nghyd-destun y pandemig COVID-19 cyfredol, fe wnaeth y Llywodraeth osod pecyn sylweddol o fesurau wedi'u targedu i ddarparu cefnogaeth i bobl sydd wedi'u heffeithio gan Coronafeirws.

Mae ein cynllun ymhlith y mwyaf hael yn y byd. Rydym wedi cryfhau'r rhwyd diogelwch ar gyfer y bobl fwyaf bregus gan fuddsoddi biliynau ar wella ein system lles. Defnyddio fframweithiau presennol ar gyfer y rheini sydd angen

cefnogaeth ychwanegol yw’r ffordd gyflymaf a mwyaf effeithiol o wneud hynny yn ystod pandemig COVID-19.

Gobeithio bod yr ymateb hwn yn ddefnyddiol i chi.

Cofion cynnes,

**Will Quince AS**

**Gweinidog dros Gyflawni Lles**